# Cofnodion Wedi'i Cadarnhau o Gyfarfod Cyhoeddus Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, 23 Medi 2025, 13:30 a gynhaliwyd yn 4.5 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Alisha Davies | (AD) | Pennaeth Ymchwil a Datblygu |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 2.6.1 a 2.6.2) |
| Elen de Lacy | (EDL) | Arweinydd Partneriaeth Strategol Ymchwil a Gwerthuso (ar gyfer eitem 2.1) |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Jenna Goldsworthy | (JG) | Arweinydd Portffolio (Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol) (ar gyfer eitem 2.4) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data (ar gyfer eitem 2.5) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Rebecca Hill | (RH) | Uwch Arbenigwr Iechyd y Cyhoedd (yn dirprwyo ar ran SA am ran o'r cyfarfod) |
| Robin Howe | (RH) | Microbiolegydd Ymgynghorol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Heintiau (ar gyfer eitem 4) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |

Wedi'i Gadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 14:00* | | |

**KRIC 1/2025.12.09 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 17 Mawrth 2026.

**KRIC 1.1/2025.12.09 Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

**KRIC 2/2025.12.09 Eitemau ar gyfer Sicrwydd**

**KRIC 2.1/2025.12.09 Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso**

Rhoddodd AD ac EDL yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Tynnodd AD sylw at y gweithgaredd cadarnhaol a'r ymgysylltiad a gynhaliwyd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, a nododd yr effeithiau a'r canlyniadau a restrir yn y papur.

Amlinellodd EDL bwyntiau allweddol y cynnydd diweddar tuag at y strategaeth:

- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi trefnu ail flwyddyn y rhaglen fentora ar gyfer Gwobrau Cyfadran Ymchwil Gofal Iechyd Cymru i annog gyrfaoedd staff sy'n ymwneud ag ymchwil gofal iechyd.
- Roedd dau aelod newydd o staff wedi ymuno: un ar gyfer ymchwil newid hinsawdd (sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth Strategol chwech) ac un ar gyfer niwed sy'n gysylltiedig â/atal gamblo, gyda'r olaf yn cael ei ariannu gan yr ardoll gamblo.
- Cynhyrchwyd Dogfennau Blaenoriaeth ar waith newid hinsawdd.
- Lansiwyd y Rhwydwaith Ymchwil Newid Hinsawdd i feithrin cydweithio ac arddangos gwaith, gyda ffocws ar gyfleoedd ariannu allanol.
- Roedd datblygiad rhaglen ymchwil i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn parhau, a oedd yn cynnwys sganio'r amgylchedd ac ymgysylltu mewnol/allanol.
- Lansiwyd y cynllun hyrwyddwyr gwerthuso ym mis Ionawr 2025, a oedd â'r nod o feithrin gallu gwerthuso, gyda nifer dda o bobl yn ei ddefnyddio ar draws yr adrannau.
- Roedd cynnydd wedi'i wneud gyda datblygu partneriaethau iechyd y cyhoedd academaidd, gyda strategaeth newydd i'w rhannu.
- Byddai'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer 2026 ymlaen yn cael ei datblygu a'i hadrodd yn ôl i KRIC.

Wedi'i Gadarnhau

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn arweinydd yn y maes ymchwil academaidd: Cadarnhaodd AD fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i arwain y weledigaeth iechyd y cyhoedd academaidd, gyda chefnogaeth gref gan Lywodraeth Cymru a phrifysgolion, a bod cynlluniau ar gyfer rhoi'r weledigaeth ar waith ymhellach yn cael eu trafod.
- Y cynnydd tuag at brofiad academaidd ar gyfer cofrestryddion arbenigol iechyd y cyhoedd: Eglurodd AD fod gan bob cofrestrydd arbenigol oruchwylwyr academaidd a chyfleoedd ar gyfer lleoliadau academaidd, a oedd â'r nod o feithrin meddylfryd academaidd hyd yn oed y tu allan i leoliadau prifysgol.
- A wnaed croesgyfeirio â meysydd gwaith eraill, ac a ddefnyddiwyd canfyddiadau gwerthuso i lywio dysgu a dyrannu adnoddau: Cytunodd AD ar yr angen am groesgyfeirio cliriach a disgrifiodd adrodd tryloyw a gwahanu gwerthuso oddi wrth gyflawni. Esboniodd AD hefyd fod blaenoriaethau strategol yn llywio anghenion ymchwil mewnol, gyda chydweithrediadau allanol (e.e. gydag awdurdodau lleol) lle mae buddiannau'n cyd-fynd, ond nododd gyfyngiadau capasiti. Tynnodd IB sylw at werthusiadau meintiol cryf diweddar (e.e., atal diabetes, nifer y bobl sy'n cael brechlyn RSV), ond nododd heriau wrth werthuso meysydd llai llwyddiannus ac ailddyrannu adnoddau.
- Cadarnhaodd SG fod metrigau ymchwil (cynigion a ddyfarnwyd, papurau a adolygwyd gan gymheiriaid) bellach yn cael eu holrhain yn y dangosfwrdd gyda phob rhan o'r sefydliad yn bwydo i ddarlun ymchwil clir, ac anogodd geisiadau ymchwil parhaus a meithrin dull academaidd ar draws y sefydliad.

Diolchodd SG i EDL ac AD am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch cynnydd ar weithredu Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso'r sefydliad.

| **KRIC 2.2/2025.12.09** | **Anghydraddoldebau Iechyd** |
|---|---|

Rhoddodd SA ddiweddariad ar y dull traws-sefydliadol o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd yn dilyn ymchwiliad manwl ym mis Mawrth 2025.

Tynnodd SA sylw at waith y grŵp llywio Anghydraddoldebau Iechyd traws-sefydliadol i gydlynu, alinio a nodi bylchau mewn gwaith anghydraddoldebau iechyd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chynllunio sefydliadol.

Ar gyfer 2025-26, nodwyd dau faes blaenoriaeth:

- **Dadansoddi a Gwerthuso Data:** Roedd is-grŵp yn gweithio i wella'r defnydd o ddata ar gyfer dadansoddi er mwyn deall problemau cyfredol a llywio camau gweithredu. Roedd yr Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad a gyflwynwyd i'r Bwrdd bellach yn cynnwys data anghydraddoldebau iechyd, ac roedd mwy o werthuso wedi'i gynllunio. Roedd tîm IB yn cynnal gwaith ar y bwlch cynyddol mewn disgwyliad oes iach.

Wedi'i Gadarnhau

- **Y Fframwaith Anghydraddoldebau Iechyd:** Fframwaith yn canolbwyntio ar ymgorffori iaith a naratif cyffredin ar draws y sefydliad, ac yn cynnwys deall ble y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gael yr effaith fwyaf.

Rhannodd SA waith anghydraddoldebau ar draws is-adrannau hefyd, megis adnewyddu Strategaeth Tegwch Sgrinio'r adran sgrinio.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A oedd mesuriadau clir ar waith i olrhain effaith y gwaith hwn. Esboniodd SA fod theori newid yn sail i'r rhaglen, a bod effeithiau "meddal" (e.e. diwylliant sefydliadol, gwneud penderfyniadau, dealltwriaeth a rennir) yn anodd eu mesur ond eu bod yn gwella, tra bod mesurau anoddach yn dibynnu ar ddata anghydraddoldebau iechyd ac olrhain canlyniadau strategaethau.
- A oedd croestoriadedd wedi'i ymgorffori yn y dull.
  Nododd SA nad oedd croestoriadedd wedi'i ymgorffori'n llawn mewn ymarfer iechyd y cyhoedd eto ond ei fod yn faes sy'n tyfu, a bod ymchwiliad manwl i groestoriadedd wedi'i gynllunio fel rhan o'r Llwyfan Datrysiadau Anghydraddoldeb Iechyd.
- Ystyr "poblogaethau iechyd cynhwysiant".
  Eglurodd SA fod hyn yn cyfeirio at grwpiau â'r canlyniadau iechyd gwaethaf oherwydd anfanteision lluosog (e.e., carcharorion, pobl ddigartref, cymunedau Teithwyr).
- Canmoliaeth i'r gwaith a wnaed ar anghydraddoldebau o fewn Gofal Sylfaenol.
  Esboniodd JM fod y rhestr wirio tegwch ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei hymgorffori ar y lefel Strategol ac ymarferol, ac yn cael ei hyrwyddo fel rhan o'r symudiad i atal. Awgrymodd IB y gellid cynnal gwerthusiad o effaith y rhestr wirio. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ailedrych ar effaith y rhestr wirio gofal sylfaenol mewn cyfarfod yn y dyfodol, gyda chyflwyniad ar y cyd gan dimau perthnasol.
  **Cam Gweithredu: SA/JM**
- Diweddariad ar gynnydd wrth gael mynediad at ddata Cyfrifiad 2021 (a oedd yn cynnwys nodweddion gwarchodedig): Rhoddodd IB yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymdrechion parhaus i sicrhau mynediad at ddata gofal sylfaenol, gyda Llywodraeth Cymru bellach yn blaenoriaethu'r newidiadau sydd eu hangen i'r fframwaith cyfreithiol.

Diolchodd SG i SA am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd hyd yma a chynlluniau ar gyfer dyfodol y rhaglen Ein Dull o Fynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd.

| **KRIC 2.4/2025.12.09** | **Diweddariad ar Flaenoriaeth Strategol 3: Hyrwyddo Ymddygiadau Iach** |
|---|---|

Rhoddodd JM yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith tuag at Flaenoriaeth Strategol 3, a oedd yn ymdrin â'r prif ymddygiadau yn y strategaeth hirdymor (ysmygu, pwysau iach, gweithgarwch corfforol ac alcohol). Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr lawn o 21 o raglenni strategol mawr, a chyflawniadau manwl, bylchau, a chamau nesaf.

Wedi'i Gadarnhau

Nododd JM bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Roedd effaith polisi a dylanwad ar ddeddfwriaeth bellach yn ganlyniadau allweddol a fonitrwyd ar gyfer y gyfarwyddiaeth.
- Y pum egwyddor a nodwyd a arweiniodd waith y gyfarwyddiaeth: cynhwysiant, dulliau amlddisgyblaethol, dylanwad, gweithio cydgysylltiedig, ac bod yn agored.
- Roedd meysydd gwaith newydd ac annisgwyl (megis rôl y cydlynydd atal gamblo), a chydweithio â thimau ymchwil a gwerthuso, yn enwedig ynghylch gamblo a chlystyru ymddygiadau risg, yn creu baich llwyth gwaith ychwanegol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Dylanwad y gyfarwyddiaeth ar bolisi'r llywodraeth a phwysigrwydd sicrhau bod gwaith yn cael effaith, a gofynnwyd am integreiddio ffrydiau gwaith (e.e., cardiofasgwlaidd a bwyta'n iach) i osgoi seilos. Pwysleisiodd JM mai effaith a chyflawni oedd prif ffocws y gwaith hwn, gydag adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y gyfarwyddiaeth yn gwneud gwahaniaeth i'r boblogaeth. Cydnabu JM hefyd y risg o weithio heb ymwneud ag eraill oherwydd y nifer fawr o raglenni, a disgrifiodd ymdrechion i leihau hyn a oedd yn cynnwys fforymau traws-gyfarwyddiaeth/sefydliadol (e.e. y Fforwm Cyffuriau ac Alcohol/Fforwm Gamblo) a mwy o ffocws ar integreiddio a chanlyniadau.
- Ymgysylltu â Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ac Awdurdodau Lleol ar faterion megis rhwystrau i rannu data a diwallu eu hanghenion. Nododd JM fod capasiti lleol yn rhwystr a disgrifiodd ymdrechion i symleiddio ymgysylltu, megis penodi prif ymgynghorydd ar gyfer pob bwrdd iechyd i leihau dyblygu a gwella cyfathrebu. Tynnwyd sylw at y cyfle i'r Bwrdd gael gwell dealltwriaeth o waith Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gyfarfod â nhw.
- Amlygodd IB:
  -yr angen am well segmentu a dealltwriaeth o ymddygiadau sy'n gorgyffwrdd (e.e., ysmygu, gordewdra, alcohol), a'r her o flaenoriaethu cefnogaeth i Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd o ystyried adnoddau cyfyngedig.
  -Pwysigrwydd dulliau sy'n seiliedig ar leoedd a chroestoriadol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, a'r potensial i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) gefnogi'r gwaith hwn yn y dyfodol.
  -Y potensial ar gyfer dull mwy strategol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda ffocws ar sut mae rhaglenni ac ymyriadau lluosog yn cyrraedd unigolion ag iechyd gwael a sut i gydlynu cynigion iddynt.
  Disgrifiodd JM ymdrechion i uno cynigion (gan ddefnyddio data gofal sylfaenol i bennu lefel risg a chynnig pecynnau, integreiddio cynigion mewn rhaglenni sgrinio) a'r angen i wella cefnogaeth hunanofal a hunanreoli.

Diolchodd SG i JM am y diweddariad.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd a amlinellwyd, a chymerodd **sicrwydd** bod ymchwil, data, tystiolaeth a gweithgarwch gwerthuso yn parhau i gefnogi Blaenoriaeth Strategol 3: Hyrwyddo Ymddygiadau Iach.

Wedi'i Gadarnhau

| KRIC 2.4/2025.12.09 | Strategaeth Digidol a Data |
|---|---|

Rhoddodd IB yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith tuag at weithredu'r Strategaeth Digidol a Data

Rhoddodd IB drosolwg o brosiectau digidol parhaus:

- Diogelu Iechyd Digidol: Roedd cyflenwr wedi'i ddewis ac yn barod i ddechrau, er bod oedi wrth gaffael wedi effeithio ar yr amserlenni disgwyliedig.
- Sgrinio Canser yr Ysgyfaint: Roedd yr achos busnes wedi'i ddatblygu gydag ateb mwy cost-effeithiol. Y prif her a nodwyd oedd sicrhau cysylltedd digidol dibynadwy ar gyfer unedau symudol.
- Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol: Roedd cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn ar gyfer y cyfnod alffa.
- Atal Gamblo: Roedd bwriad i gyflogi contractwr gan ddefnyddio arian ardoll gamblo i lunio'r agenda ddigidol, gyda ffocws ar ymyriadau ar-lein a dulliau Cymru Gyfan posibl.
- Llwybr Gordewdra: Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno cais am gyllid arloesi i gefnogi'r llwybr Unwaith i Gymru mewn cydweithrediad ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC).
- System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS): Mae'r prosiect yn llithro oherwydd problemau gydag IGDC a rheolwyr y bwrdd iechyd; mae Tom ac Iain yn gweithio i liniaru oediadau.
- Mae trafodaethau'n parhau gydag IGDC ynghylch rôl ap y GIG yn y dyfodol a chyfleoedd integreiddio.

Tynnodd IB sylw at ddau brif risg:

- Gallu a Sgiliau: Roedd y rhaglen ddigidol wedi tyfu'n gyflym, a oedd wedi codi pryderon ynghylch cael digon o sgiliau a gallu o fewn y tîm.
- Rheoli Newid: Roedd heriau o ran parodrwydd sefydliadol ar gyfer newid busnes, gyda'r risg o ddigideiddio prosesau presennol heb drawsnewidiad gwirioneddol os nad yw rheoli newid yn cadw i fyny.

Nododd IB yr ymdrechion lliniaru sydd ar waith:

- Gweithio gyda chydweithwyr i wella parodrwydd ar gyfer newid.
- Cydweithio â Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r uwch reolwyr i fynd i'r afael â risgiau strategol a chefnogi gwireddu buddion.
- Buddsoddi mewn rolau ychwanegol ar gyfer datblygu tîm, fel peiriannydd cwmwl, rolau pensaer, a hyfforddi.
- Defnyddio arian ardoll gamblo i gynyddu gallu uwch arweinyddiaeth.
- Rheoli uchelgais a llwyth prosiectau yn ofalus drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Cododd SG y mater o gydbwyso cyflymder a sefydlogrwydd, a gofynnodd a oedd angen arafu neu gyfyngu ar brosiectau newydd er mwyn cynnal diogelwch ac effeithiolrwydd. Cytunodd IB â'r angen i reoli maint y newid digidol a thynnodd sylw at bwysigrwydd parodrwydd arweinyddiaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Awgrymodd y gallai hyn fod yn bwnc ar gyfer Datblygu'r Bwrdd neu drafodaeth bellach ar lefel y Bwrdd.

Wedi'i Gadarnhau

Diolchodd SG i IB am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei Strategaeth Ddigidol a Data drwy'r Map Trywydd y cytunwyd arno a bod ganddo lywodraethu cadarn ar waith ar gyfer rheoli gwaith digidol a data.

| **KRIC 2.5/2025.12.09** | **Y Fframwaith Canlyniadau** |
|---|---|

Rhoddodd LN ddiweddariad ar y gwaith tuag at y Fframwaith Canlyniadau, a nododd y nodau i fesur effaith gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywio blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau, a chefnogi sganio'r gorwel am fylchau ac anghenion y dyfodol.

Amlygodd LN y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y system fesur bellach ar waith, gyda chyflwyno adroddiadau ar ddangosyddion i'r Bwrdd bellach o fewn yr Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad. Roedd dangosyddion newydd wedi'u hychwanegu, a oedd yn cynnwys morbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.
- Roedd y fframwaith bellach wedi'i ymgorffori yng nghanllawiau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan sicrhau ei fod yn cael ei ystyried mewn prosesau cynllunio.
- Roedd gwaith modelu ar y gweill i gefnogi cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac roedd cynllun gwerthuso wedi'i ddatblygu gan dîm AD. Roedd uchelgeisiau sefydliadol ynghylch disgwyliad oes iach wedi'u cytuno.
- Tynnodd LN sylw at ostyngiad sylweddol mewn disgwyliad oes iach, a bod y ffocws nesaf ar effaith rhestrau aros ar ddisgwyliad oes iach, yn enwedig o ran iechyd a hunan-adroddwyd, a chynlluniau i archwilio'r broses ar gyfer mynediad at apwyntiadau Meddyg Teulu.

Gofynnodd SG ai'r ddamcaniaeth oedd bod arosiadau hirach yn lleihau disgwyliad oes iach oherwydd salwch hirfaith a mwy o or-bryder. Cadarnhaodd LN mai dyma'r dybiaeth waith, a nododd bwysigrwydd ystyried iechyd corfforol a meddyliol, yn enwedig i bobl iau. Eglurodd LN fod disgwyliad oes iach yn seiliedig ar iechyd a hunan-adroddwyd, a oedd yn oddrychol ac yn cael ei ddylanwadu gan ba mor dda yr oedd cyflyrau'n cael eu rheoli. Roedd y data yn drawstoriadol, nid yn hydredol, ond roedd cynlluniau i archwilio dadansoddiad hydredol gan ddefnyddio data cyfrifiad.

Cododd SG y mater o fynediad at ddata gofal sylfaenol, a bod yn rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru dalu am fynediad at ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Esboniodd LN ac AD fod gwiriadau dichonoldeb yn cael eu cynnal cyn ymrwymo i gostau, a bod ymdrechion ar y gweill i gydlynu mynediad ar draws y sefydliad ac eiriol dros sicrhau bod data'r GIG ar gael yn fwy rhwydd ar gyfer ymchwil. Gofynnodd SG i hyn gael ei adolygu'n weithredol.

Croesawodd y Pwyllgor eglurder a ffocws y fframwaith, yn enwedig y gwaith ar restrau aros a disgwyliad oes iach, ond cwestiynodd oddrychedd iechyd a hunan-adroddwyd a'i oblygiadau ar gyfer mesur.

Wedi'i Gadarnhau

Diolchodd SG i LN am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd gyda system mesur canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ers mis Mehefin 2025.

| | |
|---|---|
| **KRIC 2.6/2025.12.09** | **Rheoli Risg** |
| **KRIC 2.6.1/2025.12.09** | **Cofrestr Risgiau Strategol** |

Rhoddodd CB/DG drosolwg o Risgiau Strategol 1, 4 a 5 sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Amlygodd DG y ffaith bod y rhesymeg dros adrodd am bob risg strategol i'r pwyllgor perthnasol wedi'i diweddaru a'i chynnwys yn yr adroddiad fel y gofynnwyd yn flaenorol.

Amlygodd DG y diweddariadau i'r Risgiau Strategol o dan gylch gwaith y Pwyllgor:

- **Risg Strategol Un** (methu â chyflawni ein rôl i ddylanwadu ar newid system i atal, lleihau anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd) – roedd y risg hon yn cael ei rheoli o fewn y lefelau goddefgarwch risg y cytunwyd arnynt.

- **Risg Strategol Pedwar** (methu â lliniaru effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd ar boblogaeth Cymru yn effeithiol) – roedd y risg hon yn cael ei rheoli o fewn y lefelau goddefgarwch risg y cytunwyd arnynt.

- **Risg Strategol Pump** (manteisio'n llawn ar ddigidol a data i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru) – dyma oedd y maes risg mwyaf arwyddocaol o hyd, gydag asesiad manwl wedi'i gynnwys yn nogfennau'r cyfarfod.

Nododd DG fod y cysylltiadau rhwng y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Strategol wedi'u hailgyflwyno yn dilyn cyfweliadau asesu strwythuredig, er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol a dangos dibyniaethau.

Canmolodd y Pwyllgor DG am gynllun clir a hygyrch yr adroddiadau risg.

Diolchodd SG i DG am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn y Sefydliad.

| | |
|---|---|
| **KRIC 2.6.2/2025.12.09** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Rhoddodd DG ddiweddariad llafar ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a nododd mai'r fersiwn a gyflwynwyd oedd y fersiwn a gyflwynwyd i gyfarfod y Tîm Arwain ym mis Medi. Roedd y gofrestr yn cael ei diweddaru ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr, gydag adolygiad gan y Tîm Arwain wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2025.

Tynnodd DG sylw at ddau risg newydd a oedd wedi'u hychwanegu at y gofrestr:

- **Risg 2003** (risg o fethu â chyflawni'r targed sero net erbyn 2030) – derbyniwyd y risg hon ar y gofrestr ym mis Tachwedd 2025, a'i halinio â Risg Strategol Pedwar. Roedd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu ar gyfer 2026–2028, gyda gofyn i gyfarwyddiaethau ystyried sut i leihau allyriadau carbon mewn prosiectau yn y dyfodol.

Wedi'i Gadarnhau

- **Risg 2078 (Deddf Cydraddoldeb)** – derbyniwyd y risg hon ar y gofrestr ym mis Tachwedd 2025. Roedd gwaith ar y gweill i argymell adnoddau a blaenoriaethu dull canolog, a fyddai'n cynnwys gwaith asesu effaith ehangach ac adolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
-

Cododd SG bryder ynghylch y capasiti ar gyfer asesiadau effaith ar iechyd, yn enwedig os bydd y galw'n cynyddu a bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol. Eglurodd SA mai dyletswydd y sefydliad yw cefnogi sefydliadau eraill i gynnal asesiadau effaith, nid eu gwneud yn uniongyrchol, a bod ymdrechion presennol yn canolbwyntio ar hyfforddiant ac arweiniad.

Diolchodd SG i DG am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod risgiau corfforaethol yn cael eu craffu'n briodol.

| **KRIC 2.6.2/2025.12.09** | **Diweddariad ar Bolisïau Corfforaethol Chwe Misol** |
|---|---|

Rhoddodd LB drosolwg o'r polisïau Corfforaethol o dan gylch gwaith y Pwyllgor. Nododd LB fod y ddau bolisi a oedd yn yr adroddiad ar gyfer y Pwyllgor hwn ill dau o fewn y dyddiad ac yn codi pryderon i'w tynnu i sylw'r Pwyllgor.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisïau, gweithdrefnau, a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **KRIC 3/2025.12.09** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| **KRIC 3.1/2025.12.09** | **Cofnodion, Log Camau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (23 Medi 2025)** |

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 23 Medi fel cofnod cywir. Rhoddwyd diweddariadau ar gamau gweithredu oedd yn weddill:

- Camau Gweithredu 2025/06 (amserlen ar gyfer system TG newydd)
- Camau Gweithredu 2024/6 (datblygu ap y GIG)

Nododd LB fod gan y ddau gam gweithredu ddiweddariadau a'u bod ar y gweill. Cynigiodd LB newid y dyddiad dyledus ar gyfer y ddau gam gweithredu agored i'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth i gael diweddariadau pellach.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y newidiadau i'r log camau gweithredu.

| **KRIC 4/2025.12.09** | **Archwiliad Dwfn - Arloesi o fewn Gwasanaethau Heintiau** |
|---|---|

Cyflwynodd RH ymchwiliad manwl i arloesi mewn Gwasanaethau Heintiau, a oedd yn cynnwys microbioleg ddiagnostig, clefydau heintus, a sawl labordy cyfeirio cenedlaethol a rhanbarthol yn y DU. Nododd RH fod Arloesi wedi'i wreiddio yn y profion a gynigiwyd a'r cyflenwi gwasanaethau, a'i fod bellach yn cael ei gydnabod yn Strategaeth Hirdymor y sefydliad o dan Flaenoriaeth Strategol 5.

Tynnodd RH sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

Wedi'i Gadarnhau

- **Enghreifftiau o Arloesi Diagnostig**
  - Prawf Moleciwlaidd Cyflym Haint ar y Cymalau: Cyflwyno prawf PCR amlddadansoddiad ar gyfer heintiau cymalau a alluogodd ddiagnosis a thriniaeth gyflymach a mwy cywir, a leihaodd arosiadau yn yr ysbyty ac a nododd bathogenau a oedd yn anodd eu canfod o'r blaen.
  - Prawf Moleciwlaidd Wlserau'r Organau Cenhedlu: Wedi'i ddatblygu mewn ymateb i frech y mwncïod, cafodd hyn ei ehangu bellach i gynnwys achosion eraill o wlserau organau cenhedlu, gan wella sensitifrwydd a manylder y diagnosis.
  - Profi Ehangedig ar gyfer Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol: Profion mewnol newydd ar gyfer mycoplasma genitalium a trichomonas vaginalis, a gynyddodd y gallu diagnostig a chost-effeithiolrwydd.
  - Parasitoleg Ysgarthol drwy Ddeallusrwydd Artiffisial (AI): Gweithredu cynlluniedig ar gyfer adnabod patrymau a gefnogir gan AI ar gyfer samplau carthion, a fyddai'n anelu at wella effeithlonrwydd, cywirdeb, a'r gallu i adolygu'n arbenigol o bell.
- **Arloesiadau Cyflwyno Gwasanaethau**
  - Rhaglen Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd: Cynlluniwyd prosiectau i wella'r cyfnodau cyn-dadansoddi (casglu samplau), dadansoddi (safoni Gweithdrefnau Gweithredu Safonol), ac ôl-ddadansoddi (adrodd naratif), a fyddai'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer casglu swabiau clwyfau a defnyddio theori 'nudge' wrth adrodd i wella gwneud penderfyniadau clinigol a lleihau profion diangen.
  - Roboteg: Cynllun peilot hirdymor o facterioleg robotig yng Ngogledd Cymru, gyda chynlluniau i ehangu i labordai rhanbarthol eraill, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd, cywirdeb a gwydnwch.
  - Rheoli Stoc Arloesol: Treial o system rheoli rhestr eiddo amser real ar gyfer cyflenwadau labordy.
- **Arloesi Cymysgedd Gweithlu a Sgiliau**
  - Gweithlu Clinigol Cymysg: Oherwydd prinder ymgynghorwyr, datblygwyd tîm aml-broffesiynol, a oedd yn cynnwys cynorthwywyr meddyg, gwyddonwyr biofeddygol cyswllt clinigol, a meddygon arbenigol. Roedd modelau gweithio o bell yn caniatáu i hyfforddeion ac ymgynghorwyr ddarparu gwasanaeth ar draws rhanbarthau ac yn rhyngwladol.
  - Ehangu Hyfforddiant: Mwy o hyfforddiant i wyddonwyr clinigol a graddedigion rhyngwladol, gyda chanlyniadau llwyddiannus mewn arholiadau arbenigol.
- **Ymchwil ac Arloesi**
  - Teipio Cryptosporidiwm: Datblygu a chyflwyno dull teipio moleciwlaidd newydd ar gyfer ymchwilio i achosion, a oedd bellach yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a gwledydd eraill.
  - Diagnosteg Aspergillosis: Roedd profion a llwybrau moleciwlaidd pwrpasol ar gyfer canfod cynnar a thriniaeth gwrthffwng wedi'i thargedu, gan leihau costau a gwella canlyniadau i gleifion, bellach wedi'u mabwysiadu ledled y DU ac Ewrop.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

Wedi'i Gadarnhau

- Natur flaengar y gwasanaeth, yn enwedig y cymysgedd sgiliau arloesol, ond gofynnwyd a oedd y model cymysg yn well na thimau traddodiadol sy'n cynnwys llawer o ymgynghorwyr. Cadarnhaodd RH fod y model yn effeithiol ond y byddai'n elwa ymhellach ar fwy o ymgynghorwyr.
- Roedd datblygiadau newydd fel profion moleciwlaidd cyflym a dewis samplau gwell wedi dangos arbedion cost i'r GIG, er nad yw manteision bob amser yn cronni'n uniongyrchol i Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Gellid hyrwyddo'r model gweithlu cymysg yn ehangach, gan ei fod yn mynd i'r afael â phrinder gweithlu ac yn cefnogi arloesi. Cytunodd RH i rannu profiadau gyda rhanbarthau eraill. Cynigiodd SG rannu gwaith arloesi gwasanaethau heintiau gyda'r bwrdd i hyrwyddo dealltwriaeth a chefnogaeth.

Diolchodd SG i RH am y cyflwyniad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod arloesi wedi'i wreiddio yng ngweithrediadau'r Adran Heintiau, ac yn canolbwyntio ar bob elfen o ddarparu Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus rhagorol.

| | |
|---|---|
| **KRIC /2025.12.09** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **KRIC 5.3/2025.12.09** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| Nododd y Pwyllgor y cynllun gwaith. | |
| **KRIC 7/2025.12.09** | **Gweinyddiaeth i gloi** |

Unrhyw fater arall: Dim.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB, gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: **17 Mawrth 2026**.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:21

Wedi'i Gadarnhau